



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Canllawiau Logo GIG Cymru

Gorffennaf 2022 Fersiwn 2



Dylid dilyn y canllawiau
canlynol ar ddefnyddio logo
GIG Cymru yn ddieithriad.

Cynnwys	
Cyflwyniad	2
Palet lliwiau GIG Cymru	3
Gosod y logo	4
Ffontiau	5
Byrddau Iechyd y GIG	7
Ymddiriedolaethau GIG Cymru	8
Y Cyfryngau Cymdeithasol a Gwefannau	9
Canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau	11
Rhagor o wybodaeth	12

Palet lliwiau GIG Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Logo lliw llawn

Dylid atgynhyrchu logo GIG Cymru mewn lliw llawn pan fo hynny'n bosibl.

Logos unlliw

O bryd i'w gilydd, nid yw'n ymarferol i'r logo ymddangos mewn lliw llawn. Os felly, defnyddiwch Pantone 534, du neu wyn ar gyfer logo unlliw, fel y dangosir isod.



Gwerthoedd lliwiau



Pantone 534 (glas)

C: 91 M: 72 Y: 27.5 K: 0
R: 50 G: 90 B: 138




Du

C: 0 M: 0 Y: 0 K: 100
R: 35 G: 31 B: 32



Pantone 465 (aur)

C: 20 M: 32 Y: 58 K: 0
R: 207 G: 171 B: 122



Gwyn

C: 0 M: 0 Y: 0 K: 0
R: 255 G: 255 B: 255

Gofod gwag gofynnol, gosod y logo ac isafswm maint



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Isafswm uchder
24mm

Isafswm maint

Er mwyn sicrhau ei fod yn glir ac yn hawdd ei ddarllen, ni ddylai'r nod corfforaethol a ddefnyddir fod yn llai na 24mm o uchder.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Uchder o 24mm
= 12mm o ofod
gwag o amgylch y
logo cyfan

12mm

12mm

Gofod gwag gofynnol

Dylai'r gofod gwag o amgylch logo'r GIG fod yn hanner uchder y logo.



GIG
CYMRU
NHS
WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gosod y logo

Wrth osod y logo, dylech ystyried y canllawiau perthnasol. Pan ddefnyddir mwy nag un logo wrth gyd-frandio, dylai pob un ymddangos mewn lle mor amlwg â'i gilydd.

Frutiger
ABCDEFGHIJKLMN
OPQRSTUVWXYZ
abcdefghijklmn
opqrstuvwxyz
1234567890

Y prif ffont

Frutiger yw'r ffurfdeip a argymhellir ar gyfer holl ddeunyddiau'r GIG.

Pan fo'n bosibl, dylai maint y ffont fod yn 12pt o leiaf.

Dylid cadw mewn cof bod angen diwallu anghenion cleifion i gael gwybodaeth mewn ffont sy'n fwy o faint na 12pt ar gais, yn enwedig mewn achosion amlwg fel pobl sydd â nam ar eu golwg.

Fel arall, dylid cynnig yr wybodaeth ar ffurf arall, fel Braille er enghraifft.

Verdana
ABCDEFGHIJKLMN
OPQRSTUVWXYZ
abcdefghijklmn
opqrstuvwxyz
1234567890

Ffontiau eraill posibl os nad yw ffont y brand ar gael

Os nad yw Frutiger ar gael, argymhellir defnyddio ffont arall fel Verdana neu Arial.

Dylai maint y ffont a ddefnyddir fod yn 12pt o leiaf pan fo'n bosibl.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Logos y Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd

Canllawiau ar gyfer y 7 Bwrdd Iechyd,
a 3 Ymddiriedolaeth y GIG

Byrddau Iechyd y GIG

Byrddau Iechyd

Mae 7 Bwrdd Iechyd:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

I gael logo Bwrdd Iechyd, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Bwrdd Iechyd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Mae gan bob Bwrdd Iechyd ei logo ei hun.
Mae enghraifft o un o'r byrddau Iechyd
i'w gweld ar y chwith.

Ymddiriedolaethau GIG Cymru

Mae 3 Ymddiriedolaeth GIG Cymru:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Canolfan Ganser Felindre

- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

I gael logo Ymddiriedolaeth GIG Cymru, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Ymddiriedolaeth.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Mae'n well gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddefnyddio Pantone 534 (glas) fel y lliw a ffefrir ar gyfer ei logo, ond gallwch hefyd ddefnyddio logo du neu wyn ar gefndir lliw.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Y fersiwn mewn lliw llawn a ffefrir gan Ganolfan Ganser Felindre pan fo'n bosibl. Pan nad yw hynny'n bosibl, defnyddiwch Pantone 534 (glas), du neu wyn.

Y fersiwn mewn lliw llawn a ffefrir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru pan fo'n bosibl. Pan nad yw hynny'n bosibl, defnyddiwch Pantone 534 (glas), du neu wyn.

Mae gan bob Ymddiriedolaeth Ambiwylans/ Ymddiriedolaeth Sefydledig ei Fathodyn Coron unigryw ei hun ac nid yw trydydd partion yn cael defnyddio'r bathodynau hyn.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Platfformau Cyfryngau Cymdeithasol


Dim ond wrth ddefnyddio platfformau'r cyfryngau cymdeithasol – fel Facebook, Twitter, Instagram ac eraill – y dylid gwahanu marc cylchol y GIG a'r testun. Nid yw'n bosibl arddangos y logo cyfan yn y ddelwedd proffil bach.

Yn yr achos hwn, ceir gwahanu marc cylchol y brand oddi wrth y testun – NID yw'n dderbyniol gwneud hyn mewn unrhyw sefyllfa arall.

- Fel y fersiwn a ffefrir, dylai'r marc cylchol fod mewn lliw llawn.
- Dylai'r marc cylchol gael ei osod yn agos at enw'r Bwrdd Iechyd, a dylai'r enw llawn gael ei arddangos yn glir.



Enghraifft Facebook



Enghraifft Twitter



Ar gyfer gwefan unrhyw Fwrdd Iechyd, defnyddiwch y fersiwn o'r logo mewn gwyn, fel y dangosir isod.



Canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau a gomisiynir gan GIG Cymru

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i unrhyw sefydliad, cwmni, contractiwr neu awdurdod a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau ar gyfer GIG Cymru, neu ar ei ran (er enghraifft, deintyddion, optometryddion, meddygon teulu, contractwyr neu unrhyw ddarparwyr gwasanaethau eraill).

Os ydych wedi eich comisiynu i ymgymryd â gwaith i GIG Cymru, neu i gynnig gwasanaeth ar y cyd â GIG Cymru, cewch ddefnyddio logo GIG Cymru ar neu yn eich cyhoeddiadau, taflenni gwybodaeth, posterï ac eitemau eraill. Cewch wneud hynny ar yr amod eich bod yn dilyn y canllawiau hyn.

Mae'r caniatâd a roddir ichi ddefnyddio logo GIG Cymru yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

- Rhaid ichi arddangos logo GIG Cymru ochr yn ochr â'ch marciau brandio chithau pan fo hynny'n bosibl, a rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn ar faint logo GIG Cymru ac ar ei osod (tudalennau 6-9). Nid oes rhaid gosod logo GIG Cymru mewn lle mwy amlwg fel y prif frand.
- Rhaid ichi gysylltu â'r deiliad contract perthnasol i drafod gosod y logo a materion brandio cyn gosod logo GIG Cymru ar unrhyw eitemau. Gwneir hyn i ddiogelu uniondeb ein brand.
- Ni cheir defnyddio logo GIG Cymru i wneud elw neu er budd masnachol.
- Os ydych wedi eich comisiynu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer GIG Cymru, cewch (os na fyddwn yn rhoi cyfarwyddyd fel arall) hysbysebu'r ffaith eich bod yn darparu gwasanaethau i GIG Cymru (neu Fwrdd Iechyd penodol). Fodd bynnag, ni chewch ddefnyddio logo GIG Cymru ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol neu i hysbysebu eich busnes eich hun neu'r gwasanaethau yr ydych yn eu cynnig.
- Rhaid ichi beidio â defnyddio logo GIG Cymru mewn unrhyw ffordd a allai gael effaith niweidiol ar enw da GIG Cymru neu unrhyw Fwrdd Iechyd neu a allai fod yn niweidiol i frand GIG Cymru.
- Cawn dynnu'r caniatâd ichi ddefnyddio logo GIG Cymru yn ôl os byddwch yn torri a/ neu'n methu â chydymffurfio â'r canllawiau hyn neu unrhyw gyfarwyddiadau eraill y byddwn yn eu rhoi ichi mewn perthynas â'ch defnydd o logo GIG Cymru. Efallai y byddwn yn gofyn ichi dynnu'n ôl a/neu ddinistrio unrhyw ddeunyddiau nad ydynt yn cydymffurfio.

Rhagor o wybodaeth a cheisiadau

I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am logos
GIG Cymru neu gais am logos newydd, cysylltwch â:

Design@llyw.cymru

**I ofyn am logo Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth,
cysylltwch â nhw'n uniongyrchol.**